



Aelodaeth a
Chefnogaeth
2018-2019

Aelodau Cyswllt

**Yn hyrwyddo cydraddoldeb a
chyfiawnder cymdeithasol ym
maes tai yng Nghymru**

www.taipawb.org | [@TaiPawb](https://twitter.com/TaiPawb)

Rydym yn elusen ac yn sefydliad o aelodau, gydag aelodau o'r sectorau tai, cymunedol, a chydraddoldeb yn ogystal â sectorau eraill perthynol yng Nghymru.

Ein tri phrif nod ar gyfer 2017–21 yw:

- **Hyrwyddo hawliau a chynyddu tegwch**
- **Meithrin rhagoriaeth mewn cydraddoldeb ac amrywiaeth**
- **Rhedeg sefydliad sy'n arloesol ac yn rhagweithiol**

Mae'n haelodau yn allweddol ac yn ein galluogi i gyflawni ein pwrpas i ysbrydoli Cymru i fod yn lle tecach i fyw ynddo.

Cyfeirir Aelodaeth Gyswllt at y trydydd sector, cyrff o'r sector cyhoeddus (ac eithrio awdurdodau lleol) a darparwyr cymorth.

Rydym yn bartner mawr ei barch sy'n gweithio'n rhagweithiol gyda'n haelodau a'r sector tai yn ehangach, gan ddarparu arweiniad a chodi'r nod ar gyfer cydraddoldeb, amrywiaeth a materion hawliau dynol. Rydym yr un pryd yn cydnabod y rôl ehangach sydd gan dai i'w chwarae drwy ymestyn cydraddoldeb, lleihau anfantais, mynd i'r afael â thlodi, a hyrwyddo iechyd a lles.

Ni yw'r ceffyl blaen wrth hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chyfiawnder cymdeithasol ym maes tai yng Nghymru, a chawn ein cydnabod yn genedlaethol am ein harbenigedd gwrthrychol ac am arwain agweddau yn y maes.

Bydd aelodaeth o Tai Pawb yn amlygu'ch ymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth. Wrth gefnogi'n gwaith hanfodol, byddwch yn elwa o brisiau rhatach ar hyfforddiant, ymgynghoriaeth a digwyddiadau. Yn ogystal, bydd gennych fynediad rhad ac am ddim at ystod o adnoddau i'ch cadw'n wybodus ac oddi mewn i'r rhwydwaith o ran y materion allweddol ac ymarfer da sy'n ymwneud â thai, cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Buddion Aelodaeth Gyswllt

Cymorth gan Tai Pawb

- Mynediad diderfyn rhad ac am ddim i'n Llinell Gymorth ar gyfer eich staff i gyd
- Disgownt o fwy na 25% ar ymgynghoriaeth wedi'i deilwra

Hyfforddiant

- Disgownt o fwy na 25% ar unrhyw un o'n cyrsiau hyfforddi, boed yn un parod neu wedi ei deilwra'n bwrpasol at eich anghenion. Gwelwch ein Llyfryn Hyfforddiant am ragor o fanylion.

Digwyddiadau a Rhwydweithio

- Disgownt o 20% ar bob un o gyfarfodydd briffio a seminarau Tai Pawb
- Disgownt o 20% ar ein cynhadledd flynyddol – yr unig gynhadledd tai a chydaddoldeb yng Nghymru – ynghyd â phrisiau rhatach ar gyfleoedd noddi/arddangos
- Presenoldeb diderfyn rhad ac am ddim yn Rhwydwaith Cydraddoldeb Tai Cymru
- Cyfleoedd i arddangos eich ymarfer da mewn cysylltiad â chydaddoldeb ac amrywiaeth i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, llywodraeth leol a chenedlaethol a'r gymdeithas yn ehangach
- Hysbysebu'ch swyddi am ddim ar wefan Tai Pawb er mwyn cyrraedd cynulleidfa fwy amrywiol

Gwybodaeth

- Caiff ein Briffiau Ymarfer Da Manwl ar faterion penodol eu hanfon atoch
- Diweddariadau chwarterol drwy ebost ar y datblygiadau diweddaraf ym meysydd tai a chydaddoldeb
- Mynediad drwy gyfrinair at ystod eang o adnoddau ar ein gwefan sydd ar gael i aelodau'n unig

Dylanwad ac Arloesedd

- Bydd eich aelodaeth yn cefnogi'n gwaith o ddylanwadu ar lunwyr polisi er mwyn gwneud polisi tai yn decach ac i ysgogi syniadaeth newydd yn y sector a thu hwnt
- Mae aelodau Tai Pawb yn hollbwysig i'n gwaith; mae ein cynorthwyo i ddatblygu'n gwasanaethau er mwyn cwrdd ag anghenion y maes yn rhoi cyfle i chi arwain y ffordd gyda'n syniadau a'n datrysiadau arloesol, gan droi amcanion yn ffaith.

Tâl

Categori Aelodaeth	Tâl blynyddol
Cyswllt	£200

Arbedion Enghreifftiol - £638

- Arbed £134 – Un aelod o staff yn mynychu bob digwyddiad Tai Pawb eleni
- Gwerth £240 – Un aelod o staff yn mynychu bob cyfarfod o Rwydwaith Cydraddoldeb Tai Cymru
- Gwerth £264 – Defnyddio'r Llinell Gymorth ddwywaith



Cofiwch bydd yr arbedion yn cynyddu y mwya'r defnydd y gwnewch o'n gwasanaethau!

Am wybodaeth bellach parthed aelodaeth byddwch cystal â chysylltu gyda **Helen Roach, Rheolwr Cysylltiadau Aelodau:**

Ebost: helen@taipawb.org, neu

Ffôn: **029 2053 7635**

Neu ymgeisiwch ar-lein: www.taipawb.org/cy/aelodaeth

Mae Tai Pawb yn gwmni cyfyngedig drwy warant (5282554) ac yn elusen gofrestrdig (1110078)